## Y Pasg

**Darllen Luc 24:31**

Rwyf wedi ymddeol droeon. Fel arfer, unwaith y mae rhywun yn ymddeol yn ystod ei yrfa, ond rydw i wedi ymddeol o fyd addysg, o fyd busnes a dwywaith o'r Weinidogaeth. Hen deimlad digon chwithig ydi ymddeol. Gadael pobl sydd wedi dod yn ffrindiau da, gadael taith yn ôl a blaen o'r gwaith ar ôl dod yn gyfarwydd â phob twll a chornel ar y daith honno. Gadael gwaith oedd mor felys ac a roddodd gymaint o bleser. Ond efallai mai'r chwithdod pennaf oedd gorfod gwrando ar yr areithiau ffarwél. Areithiau oedd ar brydiau yn ymylu ar fod yn deyrngedau a fyddai'n gwneud i'r dim i wasanaethau angladd! Cyfeirio oeddynt yn ddi-feth at orchestion ddoe. Gorffennol rhywun oedd yn cael ei drafod. Gweithredoedd a fu oedd byrdwn y teyrngedau. Ac ar ddiwedd y noson byddai rhywun yn mynd adref yn ddigon digalon gan dybio bod y diwedd yn agos ac nad oedd fawr o ddim i'w wneud bellach ond eistedd yn y gornel neu chwilio am y cartref nyrsio agosaf a phlygu i'r drefn. Ac o ymddeol bedair gwaith, fel yn fy hanes i, roedd y traddodi ar ddigwyddiadau ddoe yn fwy dirdynnol fyth.

Bob tro, adeg y Pasg, wrth i mi droi yn Efengyl Luc at hanes y ddau ar eu ffordd adref i Emaus bydd atgofion am yr ymddeoliadau yn brigo i'r wyneb. Mynd adref o Jerwsalem mae'r ddau, mynd adref yn eu hiraeth a'u digalondid. Mynd adref maen nhw am fod eu breuddwydion yn chwilfriw a'u gobaith yn deilchion. Mae'r groes wedi dod ar draws eu holl ddyheadau a'u dymuniadau, a does dim amdani bellach ond mynd yn ôl i'r hen rigolau, i'r hen ffordd o fyw. Mynd yn ôl i'r gornel.

Ar y ffordd adref, fel y cofiwch, mae cydymaith yn ymuno efo nhw ar y daith. Mae'n dechrau eu holi ac maen nhw'n bwrw eu bol ac yn sôn am ddigwyddiadau ddoe. Soniant am y dyn oedd yn broffwyd nerthol ei weithredoedd a'i eiriau, ac am eu gobaith nhw mai hwn oedd yn mynd i brynu Israel i ryddid. Roedd eu gobeithion yn fawr yn y gŵr hwn, ond daeth y diwedd ac fe gafodd ei groeshoelio. Dyn ddoe oedd Iesu iddyn nhw.

Ond mae'r cydymaith (nad ydyn nhw wedi ei adnabod) yn troi tu min ac yn ei dweud hi wrth y ddau bruddglwyfus trwy 'agorwyd iddynt yr Ysgrythurau' a dehongli ei fywyd ei hun a mynegi pam y bu'n rhaid iddo ddioddef y pethau hyn. Mae'n dangos iddynt, hefyd, ei fod yn ddyn heddiw.

Ar ôl cyrraedd gartref mae'r ddau'n gwahodd y dyn dieithr i noswylio efo nhw gan ei bod yn nosi a'r dydd yn dirwyn i ben. Ac ar doriad y bara, maen nhw'n ei adnabod. Iesu ydi o. Fo ydi'r dyn ddoe yr oedden nhw wedi bod mor barod i sôn amdano ar y ffordd. Mae'r ddau'n dychwelyd i Jerwsalem i rannu eu profiad efo'r lleill. Ydi, mae Iesu'n ddyn ddoe, ond mae o hefyd yn ddyn heddiw, yfory, ac yn dragywydd. Dyn pob oes a phob cyfnod ydi Iesu'r Pasg – yr Iesu Byw.

**Myfyrdod pellach:**
Ai Iesu'r Beibl yn unig ydi Iesu i chi? Ydi o'n brofiad byw i chi heddiw?
Sut mae dehongli 'Iesu heddiw ac yfory ac yn dragywydd'?

***Huw John Hughes***